

Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar ddigwyddiad beirniadol a arsylwyd.

Cyflwyniad

Bydd yr astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar ddigwyddiad critigol a arsylwyd yn ystod gwers fathemateg mewn ysgol gynradd yng Nghymru. Yn gyntaf, bydd manylion yr ysgol gynradd a'r dulliau methodoleg yn cael eu cyflwyno. Yn ail, bydd y digwyddiad critigol yn cael ei gysylltu gydag un o'r pedwar diben sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm newydd. Yn drydydd, bydd y digwyddiad critigol yn cael ei werthuso'n feirniadol yn erbyn damcaniaethau dysgu perthnasol ac ymchwil ehangach. Yn olaf, bydd yr holl wybodaeth hyn yn cael ei defnyddio i awgrymu camau nesaf yn dilyn y digwyddiad critigol. Bydd casgliad yn amlinellu effeithiolrwydd defnyddio digwyddiadau critigol i ddatblygu arfer proffesiynol athrawon.

Diffinnir digwyddiad critigol mewn addysg, fel digwyddiad annisgwyl tu fewn i gymuned ysgol, a gall digwyddiad critigol cael ei ddehongli fel her neu broblem sy'n digwydd yn ystod wers (Tripp, 1993; Joshi, 2018, t. 82). Gall athrawon dadansoddi digwyddiad critigol sy'n arwyddocaol i'w arfer addysgu a'i dysgwyr (Tripp, 1993). Nid yw digwyddiad critigol bob tro yn dod ag unrhyw beth newydd i arferion athrawon, ond mae'n ddefnyddiol ar gyfer cydnabod credoau cyfredol a newid nhw os oes angen (Soler, Craft a Burgess, 2001). Bydd yr astudiaeth achos hon yn ceisio rhoi mewnwelediad i addysg plant ifanc a strategaethau addysgu sy'n gysylltiedig â gofynion y Cwricwlwm newydd yng Nghymru.

Arsylwi

Canolbwyntiodd yr astudiaeth achos hon ar Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg yng Ngorllewin Cymru. Mae 142 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol hon ac mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn dod o gartrefi di-gymraeg (Estyn, 2019). Mae'r canran o blant sy'n derbyn prydiau bwyd ysgol am ddim, ychydig yn is na'r canran cenedlaethol o 18% (Estyn, 2019). Llwyddodd yr ysgol i dderbyn datganiad da ym mhob agwedd yn ôl arolwg Estyn ac un o gryfderau'r ysgol oedd sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd (Estyn, 2019).

Cafodd yr ymchwil eu cynnal mewn dau ddosbarth Cyfnod Sylfaen; dosbarth derbyn a dosbarth dau. Arsylwyd pedwar gwers a gwelir y rhain yn yr atodiadau (Gweler atodiad, T. 12, 13, 14, 17, 18, 19, 22, 23, 25, 26). Cwblhawyd pedair taflen BWA i adfyfrio ar yr arsylwadau a'r digwyddiadau critigol yma (Gweler atodiad, T. 15, 16, 20, 21, 24, 27). Yn benodol, canolbwyntir ar ddigwyddiad critigol yn ymwneud a Plentyn A ac Athrawes A yn nosbarth dau yn unig (Gweler atodiad, T. 15, 16).

Wrth gynnal yr astudiaeth achos, roedd angen cadw at ganllawiau moeseg. Yn ôl BERA (2018) rhaid i ymchwilyr cadw enw sefydliadau, plant, a staff yn anhysbys a chyfrinachol drwy gydol yr ymchwil. Defnyddiwyd ffugenwau, megis Athrawes A a Plentyn B, i gydnabod yr holl gyfranogwyr a chadw at y canllawiau moeseg yn ystod yr astudiaeth achos hon.

Methodoleg

Mae astudiaeth achos yn ddull ymchwil sydd yn caniatáu ymchwilyr i ddarganfod data mewn cyd-destun go iawn (Cohen, Manion a Morrison, 2007; Punch, 2009; Thomas, 2011). Gall astudiaeth achos canolbwyntio ar unigolyn, digwyddiad, neu gymuned benodol (Cohen, Manion a Morrison, 2007; Thomas, 2011). Yn wahanol i ymchwil arolwg, mae ymchwilyr yn gallu casglu data manwl a chofleidio digwyddiadau annisgwyl er mwyn dod i gasgliad unigryw a chyfannol (Cohen, Manion a Morrison, 2007; Thomas, 2011).

Er hynny, mae astudiaethau achos yn cael ei beirniadu am fod yn anodd cyffredinoli i'r boblogaeth ehangach (Cohen, Manion a Morrison, 2007; Punch, 2009; Thomas, 2011). Gan fod y mwyafrif o astudiaethau achos yn canolbwyntio ar un achos yn unig ac yn defnyddio sampl bach o gyfranogwyr, nid yw'n bosib cyffredinoli bob tro (Punch, 2009). Er enghraifft, nid yw astudio un digwyddiad critigol yn gynrychiadol gyda sefyllfaoedd bob dydd (Cohen, Manion, Morrison, 2007).

Ar y cyfan, nid cyffredinoli data yw prif bwrpas astudiaeth achos, ond gwerth yr ymchwil ar gyfer adeiladau ar ddealltwriaeth flaenorol (Punch, 2009; Thomas, 2011). Mae digwyddiadau critigol yn caniatáu athrawon i gasglu data manwl a ddisgrifiadol ar gyfer adfyfrio ar arferion addysgu (Joshi, 2018). Am y rheswm yma, defnyddiwyd astudiaeth achos a digwyddiad critigol i archwilio addysg plant ifanc yng Nghymru.

Mae'r mwyafrif o astudiaethau achos yn defnyddio dulliau ansoddol i gasglu data (Punch, 2009). Mae dulliau ymchwil ansoddol yn dda ar gyfer casglu i egluro ffenomenau (Cohen, Manion a Morrison, 2007). Yn wahanol i ddulliau meintiol, rydym yn gallu casglu esboniadau unigryw yn hytrach na data rhifiadol sy'n fwy priodol mewn astudiaethau achos (Punch 2009). Am y rheswm yma, penderfynwyd ar y dull o arsylwi.

Mae arsylwi yn ddull addas ar gyfer darganfod sut mae plant yn dysgu ac ymddwyn mewn amgylchedd dysgu (Sharman, Cross a Vennis, 2007; Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008). Mae arsylwi lled-strwythuriedig yn caniatáu i ymchwilyr fod yn hyblyg, o gymharu ag arsylwi strwythuriedig (Sharp, 2012).

Yn yr achos yma, roedd arsylwi lled-strwythuriedig yn addas ar gyfer cofnodi nodiadau arsylwi i mewn i dempled oedd wedi cael eu paratoi cyn arsylwi. Yn ogystal, roedd hyblygrwydd ar gyfer canfod digwyddiadau critigol, gan fod Joshi (2018) yn nodi eu bod yn debygol o fod yn ddigwyddiadau annisgwyl.

Ymhellach, gall arsylwi anghyfranogol fod yn fuddiol ar gyfer gwylio o bell a chasglu ystod eang o ddata, ond ni all rhoi mewnwelediad llawn i'r hyn y mae'r data'n ei olygu, megis arsylwi cyfranogol (Punch, 2009; Sharp, 2012). Gan dderbyn hynny, defnyddiwyd arsylwi cyfranogol er mwyn cael darlun mwy cyfannol o ddigwyddiadau'r gwersi.

Ysgrifennwyd nodiadau yn ystod arsylwi'r gwersi, gan fod Sharp (2012) yn awgrymu ei bod yn ffordd hawdd o gofnodi digwyddiadau critigol o gymharu â defnyddio rhestr wirio. Yn ogystal â hyn, mae'n helpu i osgoi rhagfarn ymchwilwyr, gan mae'n lleihau'r peryg o ddefnyddio'r cof i ddisgrifio'r wybodaeth (Sharp, 2012).

Yn olaf, roedd angen cofio i osgoi effaith Hawthorne, sy'n digwydd pan fydd cyfranogwyr yn newid eu hymddygiad oherwydd bod ymchwilydd yn arsylwi arnynt (Suter, 2012). Dilynwyd cyngor Suter (2012) drwy aros yn naturiol wrth arsylwi, er mwyn lleihau'r risg. I grynhoi, defnyddiwyd cyfuniad o arsylwi lled-strwythuriedig a chyfranogol i ganfod pedwar digwyddiad critigol.

Pedwar Diben

Darganfuwyd un digwyddiad critigol wrth arsylwi Plentyn A yn creu siâp 3D yn nosbarth blwyddyn 2. Er bod Athrawes A wedi esbonio cyfarwyddiadau clir ar gyfer creu'r siâp, roedd Plentyn A yn credu bod e methu gwneud y dasg (Gweler atodiad, T. 15). I ddarganfod y mathau o ddysgwyr sydd angen datblygu mewn ysgolion cynradd heddiw, bydd y digwyddiad critigol hwn yn cael ei werthuso â gweledigaeth yr Athro Graham Donaldson o'r pedwar diben.

Cyhoeddodd yr Athro Graham Donaldson adroddiad yn seiliedig ar ei adolygiad o'r Cwricwlwm cyfredol a'r trefniadau asesu yng Nghymru yn 2015. Argymhellodd Donaldson (2015) bod angen creu fframwaith newydd yn seiliedig ar bedwar diben, deuddeg egwyddor addysgeg, tair elfen drawsgwricwlaidd, a chwe maes dysgu a phrofiad. O ganlyniad, lluniwyd Cwricwlwm newydd ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 3 i 16 oed yn 2019.

Mae'r pedwar diben yn wraidd i'r Cwricwlwm newydd ac yn yr astudiaeth achos hon tynnir ffocws penodol at y diben sy'n anelu at feithrin dysgwyr uchelgeisiol a galluog. Un o nodweddion allweddol y diben hwn yw sicrhau bod pob plentyn yn cael ei herio'n briodol a'i fod yn gallu gwneud defnydd llawn o'i botensial (Donaldson, 2015).

Wrth edrych yn ôl ar y digwyddiad critigol, roedd yn amlwg bod creu siâp 3D yn her i Plentyn A (Gweler atodiad, T. 15). Roedd yr her yn gyfle i ddatblygu sgiliau meddwl a datrys problemau gan fod angen i'r plant weithio'n annibynnol. Mae'r sgiliau a nodwyd uchod yn hanfodol ar gyfer helpu plant i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a dod yn ddysgwyr gydol oes (Donaldson, 2015; Llywodraeth Cymru, 2019a).

Er gwaethaf hyn, ni lwyddodd Plentyn A i gyflawni'r amcanion dysgu (Gweler Atodiad, T. 15). Wrth wynebu problem, penderfynodd Plentyn A siarad â chyfoedion a pheidio â dychwelyd i'r dasg (Gweler Atodiad, T. 15). Mae'r ffaith bod hwn wedi digwydd yn mynd yn erbyn nodwedd y diben. Dylid annog plant i osod safonau uchel ar gyfer eu hunain a dyfalbarhau yn wyneb her yn hytrach na'u hosgoi (Donaldson, 2015; Llywodraeth Cymru, 2019a).

Er mwyn pwysleisio hyn, dywed Dweck (2006) bod angen i blant ddysgu sut i ailfeddlw sefyllfaoedd a llunio strategaethau newydd pan ydynt yn wynebu her. Yn ogystal, mae Estyn (2017) yn awgrymu dylai athrawon cynnwys disgyblion blwyddyn 2 mewn penderfyniadau sy'n ymwneud a'u camau dysgu nesaf, er mwyn hyrwyddo annibyniaeth yn yr ystafell ddosbarth.

Wrth dynnu'r dadleuon i gyd at ei gilydd, credir Donaldson (2015) bod sgiliau meddwl, datrys problemau a'r gallu i weithio drwy heriau yn bwysig ar gyfer datblygu dygwyr uchelgeisiol a galluog. Pan fydd athrawon yn creu cyfleoedd i ymarfer y sgiliau uchod mae'n gallu helpu plant i gymryd cyfrifoldeb dros ddysgu eu hunan (Estyn, 2017). I gloi, mae awgrym bod angen athrawon i fod yn ymwybodol o'r rhwystrau sy'n gallu effeithio ar allu plant i gyrraedd eu potensial.

Adolygiad o'r llenyddiaeth

Mae adolygu'r llenyddiaeth yn ffordd dda o ddarganfod mwy o wybodaeth am y rhwystrau posib sydd tu ôl i ddigwyddiad critigol (Tripp, 1993). Yn yr astudiaeth achos hon, mae'r digwyddiad critigol yn sbarduno meysydd sy'n seiliedig ar ddamcaniaethau datblygiadol plant, fframwaith y Cyfnod Sylfaen a meddylfryd twf. Trafodir y tri maes hyn mewn perthynas â'r digwyddiad critigol er mwyn deall sut i gefnogi a gwella profiadau dysgu plant ifanc.

Y pwynt cyntaf i fynd i'r afael ag ef yw'r damcaniaethau tu ôl i ddatblygiad plant ifanc. Un o'r damcaniaethwyr mwyaf dylanwadol ym maes datblygiad dynol yw seicolegydd Jean Piaget (Pritchard, 2017). Credai Piaget fod plant yn dilyn pedwar cyfnod datblygol a bod hyn yn digwydd dros wahanol oeddrannau (Siencyn, 2008). Mae'n dechrau gyda'r cyfnod synhwyraidd-symudol (0 - 2 flynedd), yna'r cyfnod cynweithredol (2 - 7 mlynedd), y cyfnod gweithrediadau diriaethol (7 - 11 mlynedd), ac yn olaf i'r cyfnod gweithrediadau ffurfiol o 11 mlynedd ymlaen (Davenport, 1994).

Ymhellach, nododd Piaget fod plant yn dysgu'n annibynnol ym mhob un o'r cyfnodau datblygol hyn trwy ddysgu'n uniongyrchol gyda'r amgylchedd cyfagos (Pritchard, 2017). Wrth i Piaget arsylwi plant yn ystod ei ymchwil, daeth i gredu bod dysgu yn broses ymarferol a bod plant yn adeiladu ar eu profiadau trwy greu sgemâu yn eu hymennydd (Davenport, 1994). Dim ond wrth i'r sgemâu hyn gryfhau y bydd plant yn symud ymlaen trwy'r cyfnodau datblygu ac felly roedd Piaget yn gweld datblygiad plant fel proses o gyfnodau sefydlog (Siencyn, 2008).

Yn wahanol i Piaget, credai Lev Vygotsky fod datblygiad plant yn broses gymdeithasol a chynigodd fodel o'r enw'r parth datblygol procsimol (Blake and Pope, 2008). Y parth hwn yw'r pellter rhwng lefel gychwyn y plentyn a'r hyn nad yw'r plentyn yn ei wybod eto (Siencyn, 2008). Credai Vygotsky bod angen cymorth oedolyn neu blant mwy galluog er mwyn symud dysgu ymlaen o fewn y parth hwn (Pritchard, 2017).

Fel Piaget, credai Vygotsky fod plant yn ddysgwyr gweithredol, ond adeiladodd ar y syniad hwn trwy ddweud bod angen i blant derbyn cymorth wrth oedolyn galluog, er mwyn cyrraedd lefelau meddwl uwch (Pritchard, 2017). Mae rôl yr oedolyn yn cael ei bortreadu fel sgaffaldiwr wrth i Vygotsky awgrymu bod angen iaith a heriau priodol ar gyfer adeiladu ar wybodaeth flaenorol y plant (Siencyn, 2008).

Mae'n amlwg trwy gymharu Piaget a Vygotsky eu bod yn rhannu gwahanol safbwyntiau am ddatblygiad plant. Gellir cytuno i raddau gyda Piaget, ond mae llawer o ymchwilwyr wedi cwestiynu priodoldeb eu methodoleg wrth ymchwilio a'i feirniadu am esgeuluso'r dylanwadau cymdeithasol ar ddatblygiad plant (Davenport, 1994). Ar y cyfan, mae gwaith Piaget wedi derbyn fwy o feirniadaeth wrth gymharu â Vygotsky (Blake a Pope, 2008).

Fodd bynnag, mae'r ddwy ddamcaniaeth wedi dylanwadu ar ein system addysg gyfredol ac ystyrir bod y ddwy yn bwysig wrth helpu plant i lwyddo (Blake a Pope, 2008). Er enghraifft, mae cyfnodau allweddol y Cwricwlwm Cenedlaethol yn adlewyrchu cyfnodau datblygol Piaget ac mae syniad Vygotsky o scaffaldu dysgu yn rhan o fframwaith y Cyfnod Sylfaen (Siencyn, 2008). O ystyried y dadleuon hyn, mae awgrym bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng addysgu uniongyrchol a chyfleoedd ar gyfer chwarae rhydd, er mwyn helpu plant cyrraedd eu potensial llawn.

Yn wyneb hyn, creuwyd y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant tri i saith mlwydd oed yng Nghymru. Prif fwriad y Cyfnod Sylfaen yw gofalu am les plant a chynyddu eu mwynhad tuag at ddysgu (Llywodraeth Cymru, 2015). Mae'r addysgeg yn hyrwyddo dysgu ymarferol trwy chwarae ac arbrofi, yn ogystal â gweithgareddau a gyfarwyddir gan ymarferwyr addysg (Siencyn, 2008; Llywodraeth Cymru, 2015). Y nod terfynol yw datblygu plant galluog, annibynnol ac iach (Llywodraeth Cymru, 2015).

Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth yn dangos bod y Cyfnod Sylfaen wedi cael effaith cadarnhaol ar lwyddiant, lles ac agwedd plant ers iddo gael eu gweithredu (Taylor, Rhys, Waldron, Davies, Power, Maynard, Moore, Blackaby a Plewis, 2015; Estyn, 2017). Ymhellach, mae addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn llifo mewn i'r Cwricwlwm newydd er mwyn cefnogi datblygiad plant a phobl ifanc (Llywodraeth Cymru, 2019a).

O ran y digwyddiad critigol, roedd angen i Plentyn A mynd i'r afael a her yn annibynnol drwy archwilio â gwahanol ddefnyddiau er mwyn cwblhau'r dasg (Gweler atodiad, T.15). Mae hyn yn unol ag addysgeg y Cyfnod Sylfaen, yn ogystal â syniad Piaget o ddysgu wrth arbrofi gyda'r amgylchedd. Ymhellach, mae damcaniaeth Vygotsky yn dod yn amlwg wrth i Athrawes A esbonio gyfarwyddiadau'r dasg i'r disgyblion. Ond er bod addysgeg y Cyfnod Sylfaen a'r ddwy ddamcaniaeth yn bresennol yn ystod y digwyddiad critigol yma, nid oedd Plentyn A yn credu bod e'n gallu cyflawni'r dasg.

Y farn gyffredinol heddiw i'w bod meddylfryd yn gallu dylanwadu ar agweddau plant tuag at ddysgu (Dweck, 2017). Arweinydd y maes hwn yw Dr Carol Dweck sydd yn credu bod gan blant naill ai feddylfryd sefydlog neu feddylfryd twf (Dweck, 2006; Dweck, 2017). Meddylfryd twf yw pan fydd plant yn credu y gellir datblygu eu deallusrwydd (Dweck, 2006; Dweck, 2017). Bydd y plant hyn yn mwynhau mynd i'r afael â heriau ac yn parhau yn eu hymdrechion, er gwaethaf methiant (Dweck, 2006; Dweck, 2017).

Gyferbyn a hyn yw'r meddylfryd sefydlog sydd yn digwydd pan fydd plant yn credu bod deallusrwydd yn statig (Dweck, 2006; Dweck, 2017). Yn wahanol i blant â meddylfryd twf, bydd y plant yma yn osgoi heriau, yn casáu methiant, yn rhoi'r gorau i dasg yn gyflym ac fel arfer yn cyflawni llai dros y tymor hir (Dweck, 2006; Dweck, 2017). Ar y cyfan, y meddylfryd twf sydd yn cael y sylw gan fod Dweck (2006) yn pwysleisio mai'r meddylfryd hwn sy'n arwain at fwy o lwyddiant.

Er bod tystiolaeth i ddangos bod plant ifanc yn datblygu'r ddau feddylfryd yma yn gynnar yn ei fywyd, nid oes digon o ymchwil ar yr effaith mae'r meddyliau cynnar hyn yn cael ar lwyddiant plant wrth iddynt dyfu'n henach (Dweck, 2017). Ar yr un pryd, dylid nodi bod tystiolaeth gwan yn cefnogi'r syniad bod meddylfryd twf yn arwain at fwy o gynnydd academiaidd (Sisk, Burgoyne, Sun, Butler, Macnamara, 2018).

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Sisk *et al* (2018) astudiaeth meta ddadansoddiad yn ymwneud ag effaith meddylfryd twf a chyflawniad plant. Dangosodd yr astudiaeth mai dim ond canran fach o fyfyrwyr oedd wedi gwneud cynnydd enfawr wrth weithredu'r meddylfryd twf, a bod y mwyafrif o'r myfyrwyr hyn yn dod o gefndiroedd difreintiedig (Sisk *et al*, 2018). Er mai dim ond sampl fach o blant difreintiedig oedd yn rhan o'r astudiaeth hon, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod meddylfryd twf dim ond yn effeithiol gyda grwpiau penodol o blant yn unig.

Gan edrych yn agosach ar ddibynadwyedd y ddadl, roedd ymchwil Dweck (2006) a Sisk *et al* (2018) wedi cael ei hadolygu gan gymheiriaid. Wrth i ddibynadwyedd ymchwil gynyddu wrth gael ei wirio gan sawl ymchwilydd (Punch, 2009), mae'r ddau felly'n gyfartal yn yr elfen hon. O ganlyniad, bydd angen mwy o ymchwil yn y dyfodol i ddod i gasgliad cadarn ynghylch effeithiolrwydd meddylfryd twf.

Wrth gysylltu'r wybodaeth hon â'r digwyddiad critigol, mae'n bosib bod Plentyn A wedi ymddangos meddylfryd sefydlog, gan fod e'n credu bod e methu gwneud y dasg. Er hyn, gan fod ymchwil Sisk *et al* (2018) yn awgrymu nad yw gweithredu meddylfryd twf bob amser yn cynyddu cyrhaeddiad pob plentyn, efallai nid y meddylfryd sefydlog oedd wedi atal Plentyn A rhag cwblhau'r dasg. O ystyried y dadleuon hyn, mae awgrym bod angen ystyried anghenion unigol bob plentyn, yn hytrach na chymryd yr agwedd bod un strategaeth yn addas ar gyfer pawb yn y dosbarth.

Ni raid chwilio ymhell i ganfod tystiolaeth i gytuno efo'r awgrym yma, gan fod Hattie (2012), Donaldson (2015), Estyn (2018) a Llywodraeth Cymru (2019a) yn cytuno bod e'n arfer dda i athrawon dewis a dethol dulliau addysgu, er mwyn cwrdd ag anghenion amrywiol y plant. Er enghraifft, mae Donaldson (2015) yn awgrymu deuddeg egwyddor addysgeg ar gyfer hyrwyddo addysgu effeithiol. Bydd y wybodaeth hyn yn holl bwysig wrth ystyried y rhan nesaf o'r astudiaeth achos wrth feddwl am gamau nesaf i Plentyn A wrth ddilyn ymlaen o'r digwyddiad critigol.

I grynhoi, mae fframwaith y Cyfnod Sylfaen yn adlewyrchu damcaniaethau Piaget a Vygotsky trwy annog cydbwysedd rhwng addysgu'n uniongyrchol a dysgu trwy brofiad. Er nid oes llawer o dystiolaeth i gefnogi bod meddylfryd twf yn arwain at fwy o lwyddiant, mae dal yn cael ei adnabod fel elfen bwysig o ran datblygiad plant. I gloi, mae'r holl lenyddiaeth yn awgrymu bod dysgu yn broses weithredol a chymdeithasol a bod angen defnyddio amryw o ddulliau addysgeg i gwrdd ag anghenion pob plentyn.

Adfyfyrio, gwerthuso a'r camau nesaf

Erbyn hyn, mae'r digwyddiad critigol wedi cael ei feirniadu'n gritigol yn erbyn gweledigaeth y Cwricwlwm newydd a'r llenyddiaeth berthnasol. Nesaf, dywed Tripp (1993) bod angen tynnir holl wybodaeth at ei gilydd cyn dod i gasgliad. Pwrpas yr adran yma yw adfyfyrio ar yr hyn sydd wedi cael ei ddysgu wrth werthuso'r digwyddiad critigol.

Yn ystod yr astudiaeth achos hon, defnyddiais fframwaith Borton (1970) i adfyfyrio ar y digwyddiad critigol. Mae'r fframwaith hwn yn canolbwyntio ar dri chwestiwn penodol ac yn helpu ymarferwyr i adfyfyrio ar yr hyn sy'n bwysig (Grigg, 2016). Yn gyntaf, rhaid darganfod beth ddigwyddodd (Borton, 1970; Grigg, 2016).

Defnyddiais fodel Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA) i gofio beth ddigwyddodd (Gweler atodiad, T. 15, 16). Cofiais Plentyn A yn dweud bod e methu gwneud y dasg a bod e ddim wedi llwyddo i gwblhau'r dasg erbyn diwedd y wers (Gweler atodiad, T. 15). Ar y pryd, roeddwn i eisiau deall pam oedd Plentyn A yn teimlo fel hyn ac roeddwn i'n awyddus i ddarganfod strategaeth i helpu Plentyn A chwblhau'r dasg.

Am y rheswm yma, symudais ymlaen i adfyfrio ar yr hyn y gallwn ei ddysgu o'r digwyddiad critigol. Roedd hyn yn cyfateb i ail gam y fframwaith myfyrio, wrth i Borton (1970) bwysleisio bod angen ystyried arwyddocâd y digwyddiad ar gyfer y dyfodol. Penderfynais ymchwilio'r ffordd orau i gefnogi datblygiad plant ifanc trwy ddarllen llenyddiaeth oedd yn berthnasol i'r digwyddiad critigol.

Dysgais am un o'r pedwar diben wrth i Donaldson (2015) argymhell yr angen i ddatblygu dysgwyr uchelgeisiol a galluog. Cytunwyd Dweck (2006) ac Estyn (2017) gyda hyn wrth iddynt awgrymu fod angen darparu cyfleoedd i blant fynd i'r afael a heriau ac ymarfer y sgil o ddatrys problemau. Gan dderbyn hynny, edrychais yn ddyfnach ar lenyddiaeth oedd yn gysylltiedig â datblygu dygwyr gydol oes.

Dysgais fod fframwaith y Cyfnod Sylfaen yn ceisio datblygu dysgwyr annibynnol a bod Dweck (2017) yn annog y weithred o feddylfryd twf i helpu plant datrys problemau. Gan ystyried hyn i gyd, rydw i wedi dod i'r casgliad bod athrawon, cyfoedion, meddylfryd, a'r amgylchedd dysgu yn gallu dylanwadu ar allu plant ifanc i ddatblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol a galluog.

Wrth dynnu tua'r terfyn, cam olaf y fframwaith myfyrio yw penderfynu beth gall digwydd nesaf (Borton, 1970; Grigg, 2016). Gan fy mod i'n credu bod datrys problem wedi bod yn her i Plentyn A yn ystod y dasg, hoffwn ganolbwyntio ar ddatblygu'r sgil hwn fel y cam nesaf. Bydd y cam hwn yn cwrdd â gofynion y Cwricwlwm newydd, gan fod Llywodraeth Cymru (2019a) yn rhoi pwyslais ar ddatblygu sgiliau ehangach, megis datrys problemau, ar draws y chwe maes dysgu a phrofiad.

Yn gyntaf, gall athro helpu plant i ddatblygu sgiliau meddwl a datrys problemau trwy egluro a dangos i blant sut i gyflawni tasg (Wallace, Maker, Cave a Chandler, 2004; Rosenshine, 2012). Mae dangos esiampl o dasg yn caniatáu athrawon i gyflwyno strategaethau meddwl a sgaffaldio dysgu, wrth i blant ddysgu sut i ddatrys problemau cam wrth gam (Wallace *et al*, 2004; Rosenshine, 2012).

Yn ail, gall athrawon annog plant i ofyn cwestiynau er mwyn hybu meddylfryd twf. Mae cwestiynu yn caniatáu plant i gasglu gwybodaeth newydd a'i chysylltu â gwybodaeth flaenorol i adeiladu ar eu dysgu (Cremin a Burnett, 2018). Credir bod y strategaeth yma yn fan cychwyn da ar gyfer datrys problemau, gan fod e'n annog plant i gymryd cyfrifoldeb am ddysgu eu hunan (Cremin a Burnett, 2018; Nottingham a Nottingham, 2019).

Wrth gymharu'r strategaethau hyn, mae'n amlwg bod y ddau yn cryfhau damcaniaeth Vygotsky, gan fod rôl yr oedolyn yn cael ei defnyddio i helpu'r plentyn i ennill sgil newydd. Ymhellach, mae'r strategaethau yn cysylltu efo'r pedwar diben, gan fod Donaldson (2015) yn nodi pwysigrwydd sgiliau datrys problemau a chwestiynu, wrth ddatblygu dysgwyr uchelgeisiol a galluog. Teimlaf byddai'r strategaethau hyn yn gallu fod yn fuddiol ar gyfer symud y dysgu ymlaen ar ôl y digwyddiad critigol.

Ar y cyfan, credaf fod fframwaith Borton (1970) yn ddefnyddiol ar gyfer adfyfrio ar y digwyddiad critigol. Dysgais fod plant yn aml yn wynebu heriau wrth ddysgu a bod angen i mi ystyried, sut i helpu plant i ddatrys problemau fel athrawes dan hyfforddiant. Yn olaf, dysgaid bod esbonio, modelu, a hybu cwestiynu yn yr ystafell ddosbarth yn gallu bod yn strategaethau addas ar gyfer datblygu sgiliau datrys problemau a dysgwyr gydol oes.

Yn y dyfodol, byddaf yn sicrhau fy mod yn rhoi cynnig ar y dulliau hyn, os yw'n briodol ar gyfer datblygu dysgu'r disgyblion. Gan fod disgwyl i athrawon fod yn ddysgwyr gydol oes (Llywodraeth Cymru, 2019b), byddaf hefyd yn parhau i ymchwilio ac adfyfrio ar ddamcaniaethau dysgu, er mwyn dod o hyd i fwy o strategaethau sy'n addas ar gyfer plant ifanc heddiw.

Casgliadau

Pwrpas yr astudiaeth achos hon oedd dadansoddi digwyddiad critigol a arsylwyd yn ysgol gynradd. Teimlais fod arsylwi yn ddull da o ganfod digwyddiadau beirniadol mewn ystafelloedd dosbarth. Llwyddais i ddarganfod nifer o ddigwyddiadau critigol yn ystod arsylwadau, ond credaf y byddai wedi bod yn ddefnyddiol siarad â'r athrawes ddosbarth ar ôl yr arsylwadau, er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach o'r plentyn fel dysgwr.

Mae cydweithredu rhwng athrawon mewn ysgol yn cael ei ystyried yn arfer effeithiol gan ei fod yn caniatáu i athro adeiladu ar wybodaeth a allai fod o fudd i ddysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2019b). Serch hynny, llwyddais i ddatblygu fy nealltwriaeth o ddatblygiad plant, meddylfryd twf, ac egwyddorion addysgeg y Cyfnod Sylfaen wrth werthuso'r digwyddiad critigol gyda'r damcaniaethau a llenyddiaeth berthnasol.

Mae Llywodraeth Cymru (2019b) yn cefnogi'r defnydd o ddull beirniadol ac yn annog athrawon i gymryd rhan mewn ymchwil ehangach. Credir bod gwaith ymchwil a myfyrio yn helpu athrawon i ddatblygu'n broffesiynol a dod o hyd i strategaethau addysgeg briodol ar gyfer eu dysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2019b). Fel athro dan hyfforddiant, roeddwn i'n teimlo bod y dull hwn yn angenrheidiol wrth geisio dod o hyd i gamau nesaf i'r dysgwr yn y digwyddiad critigol.

Wrth gynllunio ar gyfer datblygiad plant, rhaid i athrawon gofio ystyried y pedwar diben sy'n plethu trwy'r Cwricwlwm newydd (Llywodraeth Cymru, 2019a). Er bod fy nghamau nesaf yn seiliedig ar ddatblygu dysgwyr uchelgeisiol a galluog, credaf y byddai wedi bod yn ddefnyddiol ystyried y tri diben arall i wella'r profiad dysgu.

Ar y cyfan, roedd yn ddiddorol cynnal astudiaeth achos ar ddigwyddiad critigol. Dysgais fod plant ifanc yn debygol o wynebu problemau yn yr ysgol a bod angen i athrawon deilwra eu strategaethau er mwyn helpu plant i oresgyn rhwystrau dysgu. Gall modelu gweithgareddau ac annog plant i ofyn cwestiynau fod yn strategaethau defnyddiol ar gyfer datblygu sgiliau meddwl a datrys problemau yn y dosbarth. Yn y dyfodol, hoffwn barhau â fy ymchwil i mewn i'r Cwricwlwm newydd a chael y cyfle i fyfrio ar fy ymarfer addysgu fy hun.

Llyfryddiaeth

Blake, B a Pope, T. (2008) 'Developmental Psychology: Incorporating Piaget's and Vygotsky's Theories in Classrooms', *Journal of Cross-Disciplinary Perspectives in Education*, 1(1), tud. 59-67.

Borton, T. (1970) *Read, Touch, and Teach: Student Concerns and Process Education*. New York: McGraw Hill, Inc.

British Educational Research Association (BERA). (2018) *Ethical Guidelines for Educational Research*. 4ydd Arg. Ar gael yn: <https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018> (Darllenwyd: 20 Medi 2019).

Cohen, L. Manion, L a Morrison, K. (2007) *Research Methods in Education*. 6ed Arg. London: Routledge.

Cremin, T a Burnett, C. (2018) *Learning to Teach in the Primary School*. 4ydd Arg. London; New York: Routledge.

Davenport, C. G. (1994) *An Introduction to Child Development*. 2il Arg. London: Collins Educational.

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Ar gael yn: <https://gweddill.gov.wales/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-cy.pdf> (Darllenwyd: 4 Hydref 2019).

Dunn, D. (2017) *How to be an outstanding primary school teacher*. 2il Arg. London: Bloomsbury.

Dweck, S, C. (2006) *Mindset*. London: Robinson.

Dweck, S. C. (2017) 'The Journey to Children's Mindsets – and Beyond', *Child Development Perspectives*, 11(2), tud. 139-144.

Estyn. (2017) *Dysgu gweithredol a thrwy brofiad: Arfer effeithiol yn y cyfnod sylfaen wrth gyflwyno llythrennedd a rhifedd ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2*. Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Estyn%20Active%20and%20experiential%20learning_W_Accessible_0.pdf (Darllenwyd 18 Hydref, 2019).

Estyn. (2018) *Improving Teaching*. Ar gael yn: <https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Improving%20teaching.pdf> (Darllenwyd 12 Hydref 2019).

Estyn. (2019) *A Report on Ysgol [REDACTED]*. Ar gael yn

[REDACTED] (Darllenwyd 1 Hydref, 2019).

Fletcher-Wood, H. (2016) *Ticked Off: Checklists for teachers, students, school leaders*. Bancyfelin: Crown House Publishing.

Grigg, R. (2016) *Big Ideas in Education: What Every Teacher Should Know*. Carmarthen: Crown House Publishing.

Hattie, J. (2012) *Visible Learning for Teachers: Maximizing Impact on Learning*. London; New York: Routledge.

Joshi, R, K. (2018) 'Critical Incidents for Teachers' Professional Development', *Journal of NELTA Surkhet*, 5, tud. 82-88.

Llywodraeth Cymru. (2015) *Cwricwlwm Cymru: Fframwaith y Cyfnod Sylfaen*. Ar gael yn: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/f1/61/87/84/5dc84fef896a6a6c7713c0ac/fframwaith-y-cyfnod-sylfaen.pdf> (Darllenwyd: 4 Hydref 2019).

Llywodraeth Cymru. (2019a) *Canllaw i Gwricwlwm i Gymru 2022*. Ar gael yn: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/83/63/1e/da/ae534a18a9bec8c2a8a5be83/canllaw-i-gwricwlwm-i-gymru-2022.pdf> (Darllenwyd 19 Hydref, 2019).

Llywodraeth Cymru. (2019b) *Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth*. Ar gael yn: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/9c/06/b9/58/b1ca47568dafc2dbaea3942b/safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-pdf-rhyngweithiol-ar-gyfer-cyfrifiaduron-personol.pdf> (Darllenwyd 18 Hydref, 2019).

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2008) *Arsylwi ar Blant*. Ar gael yn: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/6f/9e/e5/67/6d66437cbcae802e261ebaa7/arsylwi-ar-blant.pdf> (Darllenwyd: 4 Hydref 2019).

Moyles, R, J. (2010) *The Excellence of Play*. 3ydd Arg. Maidenhead England; New York: Open University Press.

Nottingham, J a Nottingham, J. (2019) *Challenging Early Learning: Helping Young Children Learn How to Learn*. London; New York: Routledge.

Pritchard, A. (2017) *Ways of Learning: Learning Theories and Learning Styles in the Classroom*. 4ydd Arg. London: Routledge.

Punch, F, K. (2009) *Introduction to Research Methods in Education*. Los Angeles, Calif; London: SAGE.

Rosenshine, B. (2012) 'Principles of Instruction: Research-Based Strategies that All Teachers Should Know', *American Federation of Teachers*, 36(1), tud.12-21.

Sharman, C. Cross, W a Vennis, D. (2007) *Observing Children and Young People*. 4ydd Arg. London: Continuum International Publishing Group.

Sharp, J. (2012) *Success with your Education Research Project*. 2il Arg. Thousand Oaks; California: SAGE Publications.

Siencyn, W, S. (2008) *Y Plentyn Bach: Cyflwyniad i Astudiaethau Plentyndod Cynnar*. Caerfyrddin: Cyhoeddiadau Coleg y Drindod.

Sisk, F, V. Burgoyne, P, A. Sun, J. Butler, L, J a Macnamara, N, B. (2018) 'To What Extent and Under Which Circumstances Are Growth Mind-Sets Important to Academic Achievement? Two Meta-Analyses', *Psychological Science*, 11(4), tud. 549-571.

Soler, J. Craft, A. Burgess, H. (2001) *Teacher Development: Exploring our own practice*. London: Paul Chapman in association with the Open University.

Spooner, L a Woodcock, J. (2010) *Teaching Children to Listen: A Practical Approach to Developing Children's Listening Skills*. London; New York: Continuum International Publishing Group.

Suter, N, W. (2012) *Introduction to Educational Research: A Critical Thinking Approach*. 2il Arg. Thousand Oaks, Calif; London: SAGE.

Taylor, C. Rhys, M. Waldron, S. Davies, R. Power, S. Maynard, T. Moore, L. Blackaby, D a Plewis, T. (2015) *Evaluating the Foundation Phase: Final Report*. Ar gael yn: https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/150514-foundation-phase-final-en_0.pdf (Darllenwyd 12 Hydref 2019).

Thomas, G. (2011) *How to do your Case Study: A guide for Students and Researchers*. London; SAGE.

Tripp, D. (1993) *Critical Incidents in Teaching: Developing Professional Judgement*. London: Routledge.

Wallace, B. Maker, J. Cave, D a Chandler, S. (2004) *Thinking Skills and Problem-Solving: An Inclusive Approach: A Practical Guide for Teachers in Primary Schools*. London: David Fulton Publishers.

Atodiadau

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES 1: Digwyddiad dysgu

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/2019 Manylion y digwyddiad dysgu: Dosbarth: Blwyddyn 2 (24 o blant) Staff: Athrawes A Nod y wers: Adnabod siapiau 3D Hyd y wers: 9:15 – 10:30 <u>Cyfnod agoriadol (20 munud)</u> Gêm ryngweithiol yn ymwneud ag adnabod enwau siapiau 3D <u>Addysgu a dysgu craidd (1 awr)</u> <u>Grŵp ffocws</u> Datblygu dealltwriaeth o briodweddau siapiau 3D <u>Grŵp annibynnol 1</u> Defnyddio iaith lafar i ddisgrifio siapiau 3D <u>Grŵp annibynnol 2</u> Creu siapiau 3D <u>Sesiwn cloi (10 munud)</u> Gêm ryngweithiol yn ymwneud ag adnabod enwau siapiau 3D
Diwylliant ar lawr dysgu (Ydy'r disgyblion yn canolbwyntio ar ddysgu?) <u>Dysgu dosbarth cyfan</u> Yn ystod cyfnod agoriadol a sesiwn cloi'r wers mae'r plant yn eistedd ar y carpet gyda'i gilydd ac yn cymryd rhan mewn gêm ryngweithiol efo'r athrawes. Mae'r plant yn codi llaw pan maen nhw'n gwybod yr ateb ac mae'r athrawes yn dewis plentyn i ateb. <u>Trefn eistedd a grwpiau gallu</u> Yn ystod y gweithgareddau mae'r plant yn eistedd o amgylch byrddau siâp sgwâr yn eu grwpiau gallu mathemateg. <u>Adnoddau</u> Mae'r defnydd o'r bwrdd gwyn rhyngweithiol yn cael ei ddefnyddio er mwyn chwarae gêm fathemateg. Mae gwrthrychau diriaethol siapiau 3D yn cael ei ddefnyddio gan blant yn ystod y gweithgareddau dysgu. <u>Rheolaeth/ disgyblaeth</u> Mae'r athrawes yn chwarae cerddoriaeth glasurol yn y cefndir pan mae'r plant yn gweithio ac yn defnyddio cân pan mae'n amser tacluso. Cyn i'r plant cerdded mewn neu allan o'r dosbarth maen nhw'n gwneud llinell arbwys y drws. Mae plant yn derbyn sticeri am wneud gwaith da neu pan maen nhw wedi bod yn siarad Cymraeg.

Amcanion

(Oes pwrpas clir i'r digwyddiad dysgu?)

Pwrpas y wers: Adnabod siapiau 3D

Gweithgaredd 1

Mae'r plant yn dewis siâp 3D plastig ac yn ysgrifennu priodweddau'r siapiau 3D yn ei llyfrau mathemateg.

Gweithgaredd 2

Mae'r plant yn cymryd tro i ddewis siâp 3D allan o'r ardal fathemateg. Mae'r plentyn sy'n dewis y siâp 3D yn edrych yn ofalus arno ac yn cuddio'r siâp cyn disgrifio priodweddau'r siâp i weddill y grŵp. Mae'r grŵp yn ceisio dyfalu beth yw enw'r siâp 3D.

Gweithgaredd 3

Mae'r plant yn dewis siâp 3D allan o focs. Mae'r plant yn agor y siâp ac yn tynnu llun o amgylch y siâp ar ddam o bapur. Mae'r plant yn torri'r siâp allan ac yn plygu'r papur i ail greu'r siâp 3D.

Cyfarwyddyd

(Ydy'r disgyblion yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

Esbonio

Cyn i'r plant dechrau'r gweithgareddau mae'r athrawes yn eistedd gyda phob grŵp ac yn esbonio ar lafar beth sydd angen iddyn nhw i'w wneud. Mae'n esbonio drwy roi cyfarwyddiadau clir i'r plant ac mae hi'n dangos yr adnoddau sydd wedi gosod yn barod ar y byrddau.

Symudiad yr Athrawes

Mae'r athrawes yn eistedd gyda'r grŵp ffocws yn unig. Dydy'r athrawes ddim yn crwydro o gwmpas yr ystafell. Mae hi'n cadw llygaid ar weddill y plant drwy edrych arny'n nhw yn gyson.

Mynediad a her (Ydy pob disgybl yn gallu dilyn y digwyddiad dysgu? A gaiff pob disgybl ei herio?)

Mae'r plant i gyd yn cymryd rhan yn y gweithgareddau. Mae rhai plant yn dweud wrth ei ffrindiau bod y gweithgaredd yn hawdd a rhai yn dweud ei bod yn anodd. Ar adegau, mae'r plant yn y grwpiau annibynnol yn siarad gyda'i gilydd yn Saesneg am bwnc sydd ddim yn berthnasol i'r gwaith.

Asesu

Sut mae dealltwriaeth disgyblion cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad dysgu?

Cyn y wers ac ar ddiwedd y wers

Mae'r athrawes yn adolygu'r gwaith o'r wers mathemateg ddiwethaf trwy chwarae'r gêm ryngweithiol "Beth ydw i?" Mae'r gêm yn dangos llun o siâp 3D ac mae'r plant yn cael dau dro i ddyfalu enw'r siâp. Mae'r athrawes yn dewis pa blant sy'n ateb y cwestiynau. Mae'r plant yn cymeradwyo pan fydd ateb gywir ac yn helpu ei gilydd pan fydd plentyn yn anghywir.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

1. Yn ystod y gêm ryngweithiol, doedd pob plentyn ddim wedi cael tro i ateb cwestiwn.
2. Yng nghanol y gweithgaredd creu siapau 3D, wnaeth plentyn dweud "dwi methu wneud hwn."



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfyrion (BWA)

Dyddiad: 26/09/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws): Yng nghanol weithgaredd creu siapau 3D, wnaeth Plentyn A dweud "dwi methu wneud hwn."

Profiad/ <i>Experience</i>	
Teimladau	- Wnes i fwynhau arsylwi'r wers hon gan fod amrywiaeth o weithgareddau dysgu ar gael i'r plant. Teimlais fod y gweithgareddau hyn yn berthnasol ar gyfer datblygu dealltwriaeth o siapau 3D.
Cofio a Deall	- Eisteddodd Athrawes A gyda grŵp annibynnol 2 ac esbonio sut i greu siapau 3D. Esboniodd ar lafar drwy roi cyfarwyddiadau clir. Defnyddiodd iaith ddeallus ac addas. Er enghraifft "Torrwch y siâp allan gyda siswrn." - Er bod esboniad Athrawes A yn glir, dywedodd Plentyn A yng nghanol y dasg bod e methu wneud y dasg. Am weddill y wers, siaradodd Plentyn A gyda'i chyfoedion am bynciau nad oedd yn berthnasol i'r gwaith. Doedd Plentyn A ddim wedi llwyddo i orffen creu'r siâp 3D.
Gwerthuso a dadansoddi	- Credaf fod rhoi cyfarwyddiadau clir i blant cyn dechrau tasg yn gryfder. Mae esboniadau da yn helpu plant i ddeall gofynion tasg er mwyn llwyddo (Cremin a Burnett, 2018). - Teimlaf fod angen ailadrodd y cyfarwyddiadau yng nghanol y gweithgaredd. Efallai roedd Plentyn A wedi anghofio yn ystod y dasg. - Doedd y plant arall ddim wedi ymateb i Plentyn A gan fod nhw wedi parhau i weithio'n dawel. Petai'r plentyn wedi gofyn cwestiwn i'w ffrind, efallai byddai hyn wedi helpu. - Teimlaf fod Plentyn A wedi rhoi i fyny yn gyflym pan oedd ar goll yn ystod y dasg. - Byddai siarad gyda Plentyn A wedi bod yn fuddiol er mwyn darganfod pam wnaeth e ddim parhau i greu'r siâp 3D.



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Casgliadau a champau gweithredu	- Roedd Plentyn yn A teimlo bod e'n methu gwneud y dasg. Mae hybu meddylfryd twf yn gallu helpu plant i ddysgu wrth fethu, yn hytrach na rhoi i fyny (Dweck, 2006). Gall annog plant i ofyn cwestiynau helpu plant i gymryd cyfrifoldeb dros ddysgu eu hun a datrys problemau (Cremin a Burnett, 2018). - Dull arall o helpu plant i lwyddo yw dangos i blant sut mae gwneud y dasg. Pan fydd athrawes yn modelu tasg mae'n caniatáu'r plentyn i weld beth sydd angen wneud, cam wrth gam. Efallai bydd modelu yn strategaeth addas at gyfer Plentyn A. - Teimlaf byddai'r strategaethau yma, efallai yn fuddiol ar gyfer helpu Plentyn A i ddatblygu sgiliau datrys problemau a fod yn ddysgwr uchelgeisiol a galluog.
Y profiad newydd	



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES 2: Digwyddiad dysgu

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/2019 Manylion y digwyddiad dysgu Dosbarth: Derbyn (34 o blant, 4 oed) Staff: Athrawes B, Cynorthwydd 1 a Cynorthwydd 2 Nod y wers: Adnabod Siapau 2D Hyd y wers: 13:15 i 14:30 <u>Cyfnod Agoriadol (10 munud)</u> Cyflwyno ac esbonio trefn y prynhawn ar lafar i'r dosbarth cyfan. <u>Addysgu a dysgu craidd (55 munud)</u> Grŵp ffocws 1A Datblygu dealltwriaeth o liwiau a siapau 2D gyda Cynorthwydd 1. Grŵp ffocws 2A Creu llun gyda gwahanol siapau 2D gyda Cynorthwydd 2. Grŵp ffocws 3A Adnabod siapau 2D drwy chwarae gem rhyngweithiol ar iPad gydag Athrawes B. Grŵp annibynnol 1A Mae'r plant yn cael amser rhydd. Maen nhw'n gallu chwarae yn y dosbarth neu du allan ar yr iard chwarae. <u>Sesiwn Cloi (10 munud)</u> Chwarae cwis ar y bwrdd rhyngweithiol fel dosbarth cyfan. Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) <u>Trefn eistedd</u> Mae Athrawes B yn rhannu'r plant i mewn i bedwar grŵp. Dywed Athrawes B bod hi'n grwpio'r plant yn ôl ei oedran ac yn ceisio cael cymysgedd cyfartal o ferched a bechgyn. <u>Dysgu dosbarth cyfan</u> Yn ystod sesiwn cloi'r wers mae'r plant yn eistedd ar y carped ac yn cymryd rhan mewn cwis rhyngweithiol efo Athrawes B. Yr athrawes sy'n dewis pa blant sy'n cael ateb y cwestiwn. <u>Adnoddau</u> Mae'r defnydd o dechnoleg yn cael ei defnyddio er mwyn chwarae'r cwis rhyngweithiol ac i chwarae gemau siâp ar iPads. Mae rhai plant yn defnyddio papur lliwgar i greu llun ac eraill yn defnyddio eu llyfrau mathemateg i gwblhau gwaith.
--



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Rheolaeth/Disgyblaeth

Cyn i'r plant cerdded mewn neu allan o'r dosbarth maen nhw'n gwneud llinell wrth ochor y drws. Mae'r plant yn cael eu gwobrwyo gyda sticer am waith da neu ymddygiad da. Mae plant yn dysgu trwy chwarae rhydd, gweithgareddau ymarferol, a thasgau ffocws.

Amcanion

(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)

Pwrpas y Wers: Adnabod Siapau 2D

Grŵp ffocws 1A

Mae Cynorthwy-ydd 1 yn eistedd gyda grŵp o blant o amgylch bwrdd. Mae Cynorthwydd 1 yn darllen set o gyfarwyddiadau i'r plant ar lafar. Er enghraifft, "Allwch chi liwio'r siâp sgwâr yn felyn?"

Grŵp ffocws 2A

Mae Cynorthwy-ydd 2 yn eistedd gyda grŵp o blant o amgylch bwrdd. Mae'r plant yn dewis darnau o bapur siâp 2D ac yn gludo nhw i ddarn o bapur i greu llun o'i dewis.

Grŵp ffocws 3A

Mae'r plant yn chwarae gem mathemateg yn unigol ar iPad. Rhaid i'r plant dewis y siâp cywir er mwyn gallu bwydo'r crocodeil rhyngweithiol.

Grŵp annibynnol 1A

Mae'r plant yn cael amser rhydd. Maen nhw'n gallu chwarae yn y dosbarth neu du allan ar yr iard chwarae.

Cyfarwyddyd

(Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

Esbonio

Cyn i'r plant dechrau ar y gweithgareddau mae Athrawes B yn esbonio ar lafar i'r dosbarth cyfan beth yw'r gwahanol weithgareddau. Mae Athrawes B yn gwirio bod pawb yn deall trwy ofyn i'r plant os oes ganddyn nhw unrhyw gwestiynau.

Modelu

Mae Cynorthwy-ydd 2 yn modelu sut mae cwblhau'r dasg yn grŵp ffocws 2A. Mae hi'n cymryd sawl siâp 2D o'r bentwr yng nghanol y bwrdd, yn rhoi glud ar y siapau ac yna yn creu llun trên. Mae'n esbonio'r broses ar lafar wrth iddi fodelu'r dasg.

Mynediad a her

(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)

Mae'r plant i gyd yn cymryd rhan yn y gweithgareddau. Dywedodd Athrawes B bydd pawb yn cael cyfle i gymryd rhan yn y gweithgareddau yma gan fod y pedwar grŵp yn mynd i gylchdroi yn y wers nesaf. Yn ystod amser rhydd, mae'r plant yn cael dewis ble maen nhw am chwarae.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Yn ystod y wers mae Athrawes B yn cerdded o gwmpas yr ystafell i ymweld â phob plentyn. Mae Athrawes B yn pen-glinio lawr i lefel y plant pan mae'n siarad gyda nhw. Mae hi'n gofyn i'r plant beth maen nhw wedi bod yn dysgu. Mae Athrawes B yn gwenu ac yn rhoi adborth positif ar lafar i'r mwyafrif o blant.

Yn ystod y sesiwn cloi mae Athrawes B yn chwarae cwis efo'r dosbarth cyfan. Mae'n dewis plant i ateb y cwestiwn. Mae'r cwis yn asesu gwybodaeth y plant am siapau 2D.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

1. Yn ystod amser tacluso mae'r athrawes yn cynnig sticer i'r plentyn am dacluso'n dda. Mae'r plentyn yn gwrthod y sticer.
2. Yn ystod amser rhydd, mae Plentyn B yn llyfu ei bys ac yn eu defnyddio i greu llinellau a sgwariau ar fwrdd sialc yn yr awyr agored.

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)

Dyddiad: 26/09/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws): Yn ystod amser rhydd, mae Plentyn B yn llyfu ei bys ac yn eu defnyddio i greu llinellau a sgwariau ar bwrdd sialc yn yr awyr agored.

Profiad	
Teimladau	- Wnaeth y profiad yma rhoi mewnwelediad diddorol i mewn i sut mae plentyn yn ymddwyn yn ystod amser rhydd.
Cofio a Deall	- Roedd Plentyn B wedi dewis i fod ar yr iard chwarae. Rhedodd ar yr iard a neidiodd i mewn i byllau glaw. Yna, rhedodd draw i'r bwrdd sialc. Penliniodd lawr i edrych o dan y bwrdd sialc cyn cerdded o'i amgylch. Yna llyfodd ei fys i greu lluniellau a thynnu llun o sgwâr ar wyneb y bwrdd sialc. - Roedd yn amlwg bod Plentyn B yn mwynhau'r gweithgaredd gan dreuliodd deg munud yn tynnu lluniau ac yr oedd yn gwenu ar ôl cwblhau pob llun. - Roedd y bwrdd sialc yn rhan o'r ddarpariaeth barhaus gan eu bod yn sownd i'r wal. Er hyn, doedd ddim sialc i'w weld allan ar yr iard chwarae nag unrhyw offer ysgrifennu arall.
Gwerthuso a dadansoddi	- Credaf fod bwrdd sialc yn adnodd da ar gyfer hyrwyddo sgiliau llythrennedd yn ystod amser rhydd. Mae gwneud defnydd o adnoddau pen agored, megis byrddau sialc, yn annog plant i fod yn greadigol wrth greu marciau (Moyle, 2010). - Teimlaf fod Plentyn B yn mwynhau gweithgareddau sydd yn defnyddio'r synhwyrau gan bod e wedi llyfu ei bys a denyddio'r rhan yma o'i gorff er mwyn greu'r sgwariau. - Wedi dweud hynny, efallai wnaeth Plentyn B defnyddio'i corff gan nad oedd yn gallu gweld offer ysgrifennu. Edrychodd o dan ac o amgylch y bwrdd sialc sy'n awrgymu bod e'n chwilio am rhywbeth, fel adnodd ysgrifennu. - Yn ogystal â hyn, gan fod Plentyn B wedi bod yn chwarae yn annibynnol, teimlaf fod e ddim wedi datblygu sgiliau cyfathrebu yn ystod eu amser rhydd.



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Casgliadau a chamau gweithredu	- Gan fod Plentyn B wedi penderfynu tynnu llun o sgwar, efallai byddai'n syniad i ddilyn ei diddordeb ac ymestyn y dysgu ymhellach o fewn y cyd-destun siâp. Mae Llywodraeth Cymru (2015) yn annog athrawon i ddilyn diddordebau plant ac addysgu o fewn cyd destunnau sy'n berthnasol i'r plant. - Efallai byddai'n fuddiol i ychwanegu gwrthrychau i wella'r profiad dysgu, megis potiau o ddŵr a brwsiai paent. Gall yr adnoddau yma denu'r plentyn i ddefnyddio'r offer ysgrifennu, yn hytrach na llyfu bys. Mae'r defnydd o ddŵr yn creu profiad dysgu gwych ar gyfer cynhyrfu'r synhwyrâu ac yn rhoi cyfle i blant brofi sawl gwahanol ffyrdd o wneud marciau (Moyle, 2010). - Er bod damcaniaeth Piaget yn cefnogi bod plant yn dysgu trwy arbrofi gyda gwrthrychau o fewn amgylchedd ysgogol (Pritchard, 2017) teimlaf bod e'n addas i ddilyn theori Vygotsky hefyd. Er mwyn datblygu iaith y plentyn, gall Athrawes B scaffaldu'r dysgu yn ystod amser rhydd, drwy gyflwyno geirfa berthnasol ar lafar.
Y profiad newydd	



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES 3: Digwyddiad dysgu

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad:02/10/2019
Manylion y digwyddiad dysgu Dosbarth: Blwyddyn 2 (24 o blant) Staff: Athrawes A ac Cynorthwy-ydd Dysgu 3 Nod y wers: Ymweld â Thŷ'r Masnachwr Tuduriaid Hyd y wers: 9:00 - 12:00 <u>Cyfnod Agoriadol</u> Cerdded o'r ysgol i'r dref i ymweld â Thŷ'r Masnachwr Tuduriaid (15 munud) <u>Addysgu a dysgu craidd</u> (2 awr 30 munud) Taith dywys o amgylch y Tŷ <u>Sesiwn cloi</u> (15 munud) Cerdded nôl i'r ysgol a gwylio lluniau o'r ymweliad
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r disgyblion yn canolbwyntio ar ddysgu?) <u>Dysgu dosbarth cyfan</u> Cerddodd y plant o amgylch y tŷ fel un grŵp mawr. Buon nhw'n ymweld â'r gegin, yr ardd, yr ystafell fwyta, a'r ystafell wely. Roedd cyfle i'r plant gofyn cwestiynau yn ystod y daith. <u>Adnoddau</u> Roedd Athrawes A ac Cynorthwy-ydd Dysgu 3 yn defnyddio iPad's i dynnu lluniau o blant yn ystod y daith. Roedd y plant i gyd wedi gwisgo lan mewn dillad Tuduriaid. <u>Rheolaeth/disgyblaeth</u> Roedd y plant wedi cael ie osod i mewn i barau er mwyn cerdded i'r dref. Yn ystod y daith dywys roedd yn rhaid i'r plant wrando, rhoi dwylo lan i ofyn cwestiwn a bod yn ofalus wrth gyffwrdd a'r gwrthrychau.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r digwyddiad dysgu?) Dywed Athrawes A bod y plant wedi bod yn creu dyddiadur yn ymwneud a'i ymweliadau i wahanol lefydd o few eu hardal leol yn ystod y tymor. Pwrpas y wers hon oedd ymweld â lle newydd fel bod nhw yn gallu ychwanegu i'r dyddiadur mewn gwers arall. Yn ogystal â hyn, roedd cerdded i'r dref yn rhan o'r her milltir ddyddiol.

**Cyfarwyddyd**

(Ydy'r disgyblion yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

Esbonio

Roedd Athrawes A ac Cynorthwy-ydd Dysgu 3 yn esbonio hanes y Tuduriaid wrth iddynt deithio o amgylch y Tŷ. Roedd chwarae rôl yn rhan o'r profiad dysgu wrth iddynt esgus fod yn Duduriaid yn ystod y daith.

Cwestiynau agored

Roedd Athrawes A yn ceisio ehangu dealltwriaeth y plant o'r gwrthrychau yn y Tŷ trwy ofyn cwestiynau agored. O ganlyniad, roedd y plant yn cymryd rhan yn y dysgu a chafodd y dosbarth sawl drafodaeth ynglŷn â'i phrofiadau yn y tŷ.

Mynediad a her

(Ydy pob disgybl yn gallu dilyn y digwyddiad dysgu? A gaiff pob disgybl ei herio?)

Roedd y plant i gyd yn edrych ymlaen at y trip ac roedden nhw i gyd yn medru cerdded i'r dref yn ddiogel ac o gwmpas y Tŷ. Doedd y plant ddim wedi dysgu am y Tuduriaid cyn y trip a doedd neb wedi ymweld â'r Tŷ yn flaenorol, felly roedd y profiad yn newydd i bob plentyn.

Asesu

Sut mae dealltwriaeth disgyblion cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad dysgu?

Ar ddechrau'r wers doedd y plant ddim yn gwybod yn union ble oedden nhw'n mynd ar y trip. Dywedodd yr Athrawes bod e'n syrpreis ac felly nid oedd unrhyw asesiad ar ddechrau'r wers. Ar ddiwedd y wers, wnaeth yr athrawes dangos lluniau'r daith ar y bwrdd rhyngweithiol. Gofynnodd cwestiynau i'r plant i weld faint oedden nhw'n gallu cofio ar ôl bod ar y daith.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

1. Yn ystod y daith roedd un plentyn wedi ailadrodd yr un cwestiwn tair gwaith.
2. Roedd Plentyn C wedi dweud bod y daith yn ddiflas.

Model Beirniad Wedi Adfyfyrion (BWA)

Dyddiad/Date: 02/10/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws): Roedd Plentyn C wedi dweud bod y daith yn ddiflas.

Profiad	
Teimladau	- Roedd yn braf arsylwi blant yn ystod y daith addysgol, ond doeddwn i ddim yn disgwyl plentyn i ddweud bod e'n brofiad diflas.
Cofio a Deall	- Roedd Plentyn C yn edrych ymlaen at y trip gan ei fod yn gwenu wrth gerdded i'r Tŷ Tuduriaid. Ar ddechrau'r daith dywys, sylwais fod Plentyn C yn gofyn cwestiynau am wrthrychau'r Tŷ yn aml ac yn cymryd rhan yn y wers. - Er hynny, newidiodd ymddygiad Plentyn C yn ystod yr awr ddiwethaf. Dechreuodd aflonyddu a cheisio gwrthdynnu sylw ei gyfoed yn ystod y wers. Pan ddywedodd Athrawes A iddo i beidio â tharfu ar y wers, ymatebodd trwy ddweud "mae hyn yn ddiflas."
Gwerthuso a dadansoddi	- Roedd y daith dywys yn gyfle da i'r plant i gysylltu hanes y Tuduriaid o fewn amgylchedd go iawn. - Gan fod y trip wedi cymryd tair awr, roedd y plant wedi colli amser egwyl a'r cyfle i gael llaeth a ffrwyth. Efallai bod newidiadau o ran trefniadau'r dydd wedi effeithio ar allu'r plentyn i ganolbwyntio yn ystod y wers gyfan. - Roedd y plant yn dysgu am hanes y Tuduriaid trwy weld y Tŷ ac wrth wrando ar y staff yn siarad. Doedd ddim gweithgareddau dysgu yn ystod y daith. Efallai bod Plentyn B wedi diflasu gan fod ddim digon o her i gynnal ei diddordeb.
Casgliadau a chymau gweithredu	- Roedd yn gyfle da i'r plant dysgu am ei hardal leol ac i gael profiad o fod mewn amgylchedd hanesyddol. Dylai plant cael y cyfle i ddysgu o arbenigwyr a chael profiadau tu allan i'r ysgol yn gyson (Donaldson, 2015). - Pe byddai Plentyn B yn mynd ar drip ysgol eto, efallai byddai'n addas i osod her. Gall heriau cynnwys ymchwilio gwybodaeth neu dasg sy'n cael eu hawgrymu gan blentyn (Moyles, 2010).
Y profiad newydd	



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES 4: Digwyddiad dysgu

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 02/10/2019

Manylion y digwyddiad dysgu

Dosbarth: Derbyn (34 o blant, 4 oed)
Staff: Athrawes B, Cynorthwy-ydd 1, Cynorthwy-ydd 2, Cynorthwy-ydd 4
Nod y wers: Dysgu am dymor yr Hydref (Mercher Mwdlyd)
Hyd y wers: 13:15 i 14:45

Cyfnod Agoriadol (15 munud)

Gêm yr Hydref ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol

Addysgu a dysgu craidd (1 awr)

Grŵp ffocws 1B
Casglu dail a defnyddio'r dail i greu llun o goeden a gwiwer ar yr iard chwarae.

Grŵp ffocws 2B
Defnyddio corcyn a phaent i greu llun o goeden yr Hydref.

Grŵp ffocws 3B
Ysgrifennu geiriau'r Hydref gyda sialc ar yr iard chwarae.

Sesiwn Cloi (15 munud)

Gorffen gêm yr Hydref ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol.

Diwylliant ar lawr dosbarth

(Ydy'r disgyblion yn canolbwyntio ar ddysgu?)

Dysgu dosbarth cyfan

Roedd Athrawes B yn chwarae gêm yr Hydref gyda'r dosbarth cyfan. Roedd rhaid i'r plant dyfalu enwau anifeiliaid yr Hydref. Roedd y plant yn rhoi dwylo lan i ateb y cwestiynau.

Rheolaeth ac annibyniaeth

Cyn mynd tu allan, roedd rhaid i'r plant mynd i ôl cot ac esgidiau glaw. Roedd y staff yn annog y plant i wisgo'n annibynnol. Roedd y plant yn ymwybodol eu bod nhw'n cael "Mercher Mwdlyd" ar brynhawn dydd Mercher. Roedd yr Athrawes yn rhannu nhw i mewn i grwpiau gallu ac yn arwain y dysgu.

Adnoddau

Bwrdd gwyn rhyngweithiol, sialc, paent, dail, papur a chardiau fflach.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Amcanion

(Oes pwrpas clir i'r digwyddiad dysgu?)

Pwrpas y wers oedd dysgu am dymor yr Hydref. Dywed Athrawes B bod hi'n ceisio addysgu'r plant am liwiau'r dail, anifeiliaid y coed, a chyflwyno geirfa sy'n gysylltiedig â'r Hydref. Roedd y plant yn gwario 15 munud mewn un grŵp cyn symud ymlaen i'r grŵp nesaf. Yn ogystal â hyn, dywed yr Athrawes bod hi'n ceisio dysgu'r thema Hydref yn drawsgwricwlaidd wrth ddod mewn a gweithgareddau celf, llythrennedd a thechnoleg i'r wers hon.

Cyfarwyddyd

(Ydy'r disgyblion yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

Esbonio a modelu

Wnaeth y staff i gyd esbonio'r dasg ar lafar cyn i'r plant ddechrau'r gweithgareddau. Yn ogystal â hyn wnaeth Cynorthwy-ydd 1 modelu sut i osod corcyn mewn paent a'i ddefnyddio i greu dail ar ddarn o bapur. Roedd y cynorthwydd yma hefyd wedi gosod esiampl o'r dasg ar y wal fel bod y plant yn gallu gweld beth oedd disgwyliadau'r dasg.

Mynediad a her

(Ydy pob disgybl yn gallu dilyn y digwyddiad dysgu? A gaiff pob disgybl ei herio?)

Gan fod y plant yn cylchdroi bob 15 munud i gwblhau'r holl weithgareddau, roedd digon o amrywiaeth i'r plant a digon o heriau ar gael yn ystod y wers. Roedd pob plentyn yn gallu cymryd rhan yn y gweithgareddau oherwydd roedd gan yr ysgol, dillad awyr agored sbâr i'r plant oedd wedi anghofio nhw.

Asesu

Sut mae dealltwriaeth disglyblion cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad dysgu?

Defnyddiodd Athrawes B cwestiynau agored yn ystod y gêm ryngweithiol i ddarganfod beth oedd y plant yn gwybod yn barod. Ar ddiwedd y wers, roedd y cynorthwywyr yn adrodd nôl i Athrawes B am ymddygiad a gwaith y plant yn ystod y gweithgareddau.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

1. Roedd un merch yn gallu darllen y geiriau yn rhwydd ond doedd hi ddim yn deall ystyr y geiriau.
2. Roedd un bachgen yn gwrthod siarad Cymraeg yn ystod y wers.
3. Roedd Plentyn D yn cadw gweiddi allan yr atebion yn ystod y gêm rhyngweithiol.

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)

Dyddiad/Date: 02/10/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws): Roedd Plentyn D yn cadw gweiddi allan yr atebion ystod y gêm rhyngweithiol.

Profiad	
Teimladau	- Wnes i fwynhau arsylwi gweithgareddau ar dymor yr Hydref.
Cofio a Deall	- Ar ddiwedd y wers, roedd y plant yn eistedd ar y carped ac yn edrych ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol. Roedden nhw'n chwarae gêm yr Hydref ac yn ceisio darganfod enwau anifeiliaid yr Hydref. - Roedd Plentyn D yn eistedd ar y carped ac roedd yn awyddus i ddyfalu'r ateb cywir wrth iddo roi ei llaw lan a gweiddi allan "Miss, Miss!" - Yna, wnaeth Plentyn D gweiddi allan yr ateb, er nad tro fe oedd e i ateb. Dywedodd Athrawes B wrtho i beidio â gweiddi allan ond fe barhawyd y plentyn i weiddi allan yn ystod y gêm.
Gwerthuso a dadansoddi	- Roedd Athrawes B yn ceisio hybu tegwch yn y dosbarth trwy ddewis gwahanol blant i ateb cwestiynau'r gêm. - Er hyn, roedd Plentyn D yn anwybyddu'r plant eraill wrth iddo darfu ar y gêm drwy weiddi allan yr atebion. - Sylwais fod Plentyn D yn gweiddi allan yr atebion cywir, ond doedd e ddim yn gweiddi allan bob tro. Efallai doedd Plentyn D ddim yn hoffi ateb cwestiynau nad oedd yn gwybod.
Casgliadau a chymau gweithredu	- Roedd Plentyn D yn ceisio ateb y cwestiwn cyn pob un arall trwy weiddi allan yr atebion cywir. Mae plant yn tueddi o weiddi allan pan nad ydynt wedi dysgu'r sgil o aros yn dawel (Spooner a Woodcock, 2010). Gall cynllunio gwersi sy'n helpu plant i ymarfer y sgil yma fod yn strategaeth ar gyfer osgoi gweiddi allan yn y dyfodol (Spooner a Woodcock, 2010). - Er enghraifft, gall athrawes ysgrifennu enwau'r plant ar ffyn loli a dewis plentyn ar hap i ateb cwestiwn. Mae ffyn loli yn helpu athrawon i sicrhau bod pob plentyn yn cael tro i ateb (Dunn, 2017).
Y profiad newydd	